| | |
|---|---|
| **Blaen a chyflwyniad** | **Ar gyfer Rhan 1 i 5** |

# Atodlen o newidiadau â ffocws a golygiadau ychwanegol


| | |
|---|---|
| Newidiadau â ffocws | Rhan 1 |
| Mân newidiadau i'r cynllun | Rhan 2 |
| Llyfryn mapiau | Rhan 3 |
| Newidiadau eraill | Rhan 4 |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Rhan 5 |


Ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2 Sir Benfro*
(2017–2033)
Cynllun Adneuo 2

*ac eithrio ardal gynllunio Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

17 Gorffennaf 2025

Cyngor Sir Penfro

# Cynnwys

Cyflwyniad .... 2

Newidiadau â ffocws – Rhan 1 .... 2

Atodlen o fân newidiadau i’r Cynllun – Rhan 2 .... 3

Llyfryn mapiau – Rhan 3 .... 3

Atodlen o newidiadau eraill – Rhan 4 .... 4

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – Rhan 5 .... 4

# Cyflwyniad

1. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol 1 Sir Benfro (CDLl 1) gan Gyngor Sir Penfro yn 2013 o dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Yn unol â gofynion statudol, mae'r cynllun datblygu lleol wedi cael ei fonitro'n flynyddol wedi hynny ac mae'r canfyddiadau wedi'u cyhoeddi mewn adroddiadau monitro blynyddol.

2. Mae'n ofynnol hefyd i'r cyngor gynnal adolygiad llawn o'r cynllun datblygu lleol mabwysiedig o leiaf bob pedair blynedd o'r dyddiad y cafodd ei fabwysiadu. I grynhoi, ymgynghorwyd ar yr adroddiad adolygu ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2 (CDLl 2) o fis Tachwedd 2017, ymgynghorwyd ar y Strategaeth a Ffefrir o fis Rhagfyr 2018, ymgynghorwyd ar y cynllun adnau cyntaf o 15 Ionawr 2020, ac ymgynghorwyd ar yr ail gynllun adnau o fis Hydref 2024.

3. Mae'r cyngor bellach wedi ystyried y sylwadau a ddaeth i law a'r wybodaeth newydd sydd ar gael ar ôl cyhoeddi ail drafft CDLl 2 i'r cyhoedd. Bydd y newidiadau â ffocws hyn yn destun ymgynghoriad cyn iddynt gael eu cyflwyno i gam archwiliad CDLl2.

4. Bydd Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn penodi arolygydd cynllunio o asiantaeth Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i gynnal archwiliad annibynnol i benderfynu a yw'r cynllun a gyflwynwyd, sy'n ddarostyngedig i'r newidiadau â ffocws arfaethedig, yn gadarn.

5. Mae'r newidiadau â ffocws wedi'u nodi yn yr adrannau canlynol o'r ddogfen hon yn y drefn y maent yn ymddangos yn y CDLl.  Mae gan y rhain y cod cyfeirnod NFf (newidiadau â ffocws). Gwahoddir aelodau o'r cyhoedd a phartïon sydd â diddordeb i roi sylwadau ar y newidiadau arfaethedig yn ystod y cyfnod ymgynghori.

# Newidiadau â ffocws – Rhan 1

6. Er hwylustod, mae'r newidiadau â ffocws wedi'u nodi yn nhrefn y cynllun ac mae ganddynt gyfeirnodau unigryw y dylid cyfeirio atynt mewn unrhyw sylwadau a wneir i'r ymgynghoriad. Mae'r rhifau newidiadau â ffocws hyn wedi'u rhagddodi ag 'NFf'.
   - Dangosir testun ychwanegol arfaethedig mewn **print trwm** ac wedi'i **<u>danlinellu</u>**, a dangosir testun sydd wedi'i gynnig ar gyfer ei ddileu fel testun â llinell drwyddo e.e. ~~**testun â llinell drwyddo**~~ **a thestun mewn print trwm.**
   - Dangosir yn glir gyfeiriad at yr adran, y polisi, neu'r paragraff o'r Cynllun Datblygu Lleol y mae'r newid â ffocws yn ymwneud ag ef.
   - Mae'r atodlen newid â ffocws yn cyfeirio at ffynhonnell pob newid arfaethedig ac yn cyfeirio at unrhyw ddogfen gefndirol/ddogfen dystiolaeth berthnasol, os yw'n berthnasol a lle bo'n briodol.

- Mae hyd a lled y newidiadau â ffocws arfaethedig yn amrywio o welliannau sy'n newid y polisi'n fwy sylweddol i'r rhai sy'n darparu eglurhad, diweddariadau, neu sy'n cryfhau'r polisi, ond nid ydynt yn newid yr ystyr na'r nod cyffredinol yn sylweddol.
- Os oes angen golygu'r map cynigion, mae hyn wedi'i amlygu – gweler y llyfryn mapiau am y newid perthnasol – defnyddir yr un cyfeirnod.

7. Mae pob newid â ffocws wedi cael ei sgrinio i ystyried eu heffaith ar yr arfarniad o gynaliadwyedd. Ar ôl ystyried y newidiadau, ni nodwyd unrhyw oblygiadau o ran arfarniad o gynaliadwyedd cyffredinol y Cynllun Adnau.

8. Ystyriodd yr adroddiad hwn hefyd y newidiadau â ffocws o dan Sgrinio Cam 1 ar gyfer effeithiau arwyddocaol tebygol. Gellir gweld o Ran 1 nad ystyrir bod unrhyw un o'r newidiadau â ffocws arfaethedig yn arwain at unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd gwarchodedig ac ni ystyrir bod angen unrhyw asesiad pellach.

9. Sgriniodd yr adroddiad hwn y newidiadau â ffocws yn ystyried eu heffeithiau posibl ar gydraddoldeb. Gellir gweld o Ran 1 nad ystyrir bod unrhyw un o'r newidiadau â ffocws arfaethedig yn arwain at unrhyw effeithiau negyddol o ran cydraddoldeb ar gyfer unigolion â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac ni ystyrir bod angen unrhyw asesiad pellach.

10. Sylwer: Y testun diffiniol fydd testun y Cynllun Datblygu Lleol a nodir yng Nghynllun Adnau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys y newidiadau â ffocws fel y'i hysgrifennwyd gan Gyngor Sir Penfro, cyn ei gyfieithu.

# Atodlen o fân newidiadau i'r Cynllun – Rhan 2

11. Cyflwynir atodlen ar wahân o'r mân newidiadau i'r Cynllun ac mae'n nodi nifer o fân ddiwygiadau a gynigiwyd sy'n mynd i'r afael â gwallau teipograffyddol neu ffeithiol yn hytrach na newidiadau sy'n ymwneud â chadernid.  Unwaith eto, os oes newidiadau cysylltiedig i'r map cynigion, dangosir y rhain yn y llyfryn mapiau. Mae rhifau'r mân newidiadau hyn wedi'u rhagddodi ag 'MN' (mân newidiadau). Mae unrhyw olygiadau i'r map hefyd yn cael eu rhagddodi ag 'MN' – defnyddir yr un cyfeirnod.

# Llyfryn mapiau – Rhan 3

12. Mae rhai o'r newidiadau â ffocws a nodwyd yn yr atodlen yn gofyn am newidiadau mapio i'r map cynigion a lle bo angen, mae'r rhain wedi'u nodi yn atodlen y newidiadau â ffocws. Mae'r mapiau wedi'u cynnwys yn llyfryn mapiau y newidiadau â ffocws. Mae'r rhain yn dangos, er enghraifft, newidiadau i ffiniau neu'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am fap cynigion Cynllun Datblygu Lleol 2. Fel sy'n wir am

newidiadau â ffocws i destun, mae pob newid â ffocws i fap wedi cael y rhif newid â ffocws perthnasol er mwyn gallu eu nodi a gwneud sylwadau amdanynt yn hawdd. Defnyddir yr un dull ar gyfer mân newidiadau a newidiadau eraill.

## Atodlen o newidiadau eraill – Rhan 4

13. Cyflwynir rhestr o newidiadau eraill i ddogfennau ategol y Cynllun yn Rhan 4. Unwaith eto, os oes newidiadau mapio cysylltiedig, dangosir y rhain yn y llyfryn mapiau. Mae'r rhifau 'Newid Arall' wedi'u rhagddodi ag 'NA' (newid arall). Mae golygiadau i fap sy'n gysylltiedig hefyd wedi'u rhagddodi ag 'NA'.

## Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – Rhan 5

14. Mae Rhan 5 yn cynnwys fersiwn o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Cynllun Adnau sy'n tracio'r newidiadau ac sy'n ymateb i'r sylwadau a gafwyd – gweler y Papur Materion perthnasol am y cefndir i'r newidiadau arfaethedig.